



**COLEG  
STAFF**

ARWEINYDDIAETH GWASANAETHAU PLANT Y SECTOR CYHOEDDUS

# Rhaglen Arweinwyr Addysg y Dyfodol Cymru

Dyma raglen genedlaethol ar gyfer y rheiny sy'n ymgeisio neu wedi'u penodi'n ddiweddar i rôl lefel cyfarwyddwr ym maes addysg yng Nghymru. Mae Rhaglen Arweinwyr Addysg y Dyfodol Cymru yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr sy'n awyddus i ddatblygu eu hunain a'r plant a'r bobl ifanc a wasanaethir ganddynt.

**Mae Rhaglen Arweinwyr Addysg y Dyfodol Cymru** yn rhaglen ar y cyd rhwng Coleg Staff Cymru, CCAC, CLILC a Llywodraeth Cymru. Mae'n adeiladu ar lwyddiant Rhaglen Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cymru a gynhaliwyd yn ystod 2015/2016 ac mae wedi'i gynllunio ar y cyd â chyfarwyddwyr y sector addysg yng Nghymru. Bydd cynnwys y rhaglen hefyd yn cael ei dynnu o raglenni uwch arweinwyr eraill a gynigiwyd i gyfarwyddwyr uchelgeisiol ar draws y sector cyhoeddus yn Lloegr a'r Alban, a bydd yn gyfle i uwch swyddogion addysg Cymru ddysgu gan ei gilydd a pharatoi ar gyfer cam nesaf eu gyrfaoedd gyda'i gilydd.

## Diben

Mae gwasanaethau cyhoeddus, a'r rheiny sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny, yn wynebu heriau hollol newydd. Mae rolau yn fwy eang ac mae pobl mewn rolau uwch yn fwyfwy cyfrifol am wasanaethau y tu allan i'w meysydd hanesyddol o arbenigedd. Yn ogystal, mae'r berthynas rhwng y dinesydd a'r wlad yn llai clir ac mae mwy a mwy o lyfnder rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a nider-elw wrth iddynt ddatblygu darpariaethau integredig a sefydlu partneriaethau newydd.

Mae dringo'r ysgol yrfa i rôl ar lefel cyfarwyddwr yn gofyn am barodrwydd i groesawu a mynd i'r afael ag ansicrwydd, cymhlethdod ac amwysedd sydd bellach ynghlwm wrth yr heriau a wynebir gan uwch arweinwyr yn y sector cyhoeddus. Mae a wnelo'r rhaglen hon â chanfod ffyrdd i weithio'n llwyddiannus mewn amgylchedd heriol ac anhagweladwy, lle'r ydych chi ar eich pen eich hun ond yn methu gweithio wrtho'ch hun a lle mae arnoch chi angen cymryd risgiau ond nad ydych chi'n gallu heb ystyried lles eraill yn gyntaf.

Erbyn diwedd y rhaglen bydd cyfranogwyr wedi gwella eu sgiliau dylanwadu a derbyn caniatâd ar gyfer datrysiadau pragmatig yn seiliedig ar synnwyr cryf o werth cyhoeddus, wedi'u penderfynu drwy sgysiau a thrafodaethau cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus democrataidd.

### Prif amcanion y rhaglen yw:

- Cyflwyno cyfranogwyr i fodlau arwain allweddol
- Rhannu syniadau am gyfraniad a gwerth cydgynhyrchu a chyfalaf cymunedol wrth ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd
- Helpu cyfranogwyr i archwilio eu potensial ar gyfer arwain mewn rôl uwch a datblygu'r gwydnwch sydd ei angen i ymdopi gyda heriau cynyddol a chyfleoedd
- Darparu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer cyfranogwyr i adolygu eu harferion ac i weithio ochr yn ochr ag eraill ar 'her arwain' unigol'.

## Cynnwys

- Modelau arwain craidd, gan gynnwys Arweinyddiaeth Addasol, Gwerth Cyhoeddus, Arwain Systemau a Proffesiynoldeb Cydweithrediadol
- Arweinyddiaeth ar gyfer newid cymdeithasol
- Camu i rôl cyfarwyddwr fel aelod o'r tîm gweithredol ac fel dylanwadwr allweddol yn system ehangach y gwasanaeth cyhoeddus
- Adnoddau ymarferol ar gyfer dadansoddi systemau, trefniadau a pherfformiad, fel y Triangl Strategol, Dylunio Gwasanaeth, Fframio ac Ail-fframio, Materion Diniwed, Drwg a Chritigol a Gwerthuso'n Seiliedig ar Ganlyniadau
- Defnyddio cyfalaf dinasyddion a chymunedol i ddarparu gwell canlyniadau lles y cyhoedd
- Cydgynhyrchu gwasanaeth
- Datblygu dulliau integredig ac wedi'u harwain gan yr ysgol i helpu'r ysgol a'r Awdurdod Lleol wella yn y cyd-destun Cymreig
- Rôl ysgolion ac addysg wrth ddatblygu dinasyddion cyfrifol
- Gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc Rhoi ysgolion yng nghanol y gymuned
- Datblygu gwydnwch personol a sefydliadol yn y cyfnod hwn o newid
- Adolygu arferion
- Hyfforddi cyfoedion ar 'her arwain' bersonol'.

## Ar gyfer pwy mae'r rhaglen?

Mae'r rhaglen hon ar gyfer pobl:

- Sydd â diddordeb, gallu a dyhead i gamu i rôl ar lefel cyfarwyddwr o fewn y 12-36 mis nesaf neu'r rheiny sydd wedi derbyn swydd cyfarwyddwr yn ystod y 12 mis diwethaf
- Sydd â chefnogaeth nawdd gan eu cyfarwyddwr presennol neu eu rheolwr atebol
- Sy'n ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac adolygiad parhaus o'u sgiliau a'u cymwyseddau proffesiynol
- Sydd wedi ymrwmo i wella eu gwybodaeth am arweinyddiaeth a gwneud newidiadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y rheiny o'u cwrpas
- Fydd yn rhannu'r hyn maent wedi ei ddysgu yn ystod y rhaglen gyda chydweithwyr drwy eu harweinyddiaeth
- Ymgeiswyr o'r llywodraeth leol neu gonsortia, a fydd yn gorfod dangos arbenigedd a phrofiad helaeth o ddarpariaeth addysgol
- Sy'n ymrwymedig a chydag amser i gwblhau'r rhaglen yn llawn.

Hyd y rhaglen yw 6 mis a disgwylir i gyfranogwyr fynychu tair elfen breswyl deuddydd i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus a derbyn y dystysgrif.

Y gost yw £450 + TAW y pen.

Am fwy o wybodaeth neu i ddechrau'r broses ymgeisio, cysylltwch â: Jessica Drummond ar 0115 7484126 neu [Jessica.drummond@thestaffcollege.uk](mailto:Jessica.drummond@thestaffcollege.uk).

Bydd proses ymgeisio Carfan 1 ar agor **ddydd Mercher 28 Mehefin 2017** ac yn cau hanner nos **dydd Mawrth 1 Awst 2017**.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government